# Ordinhad 3:

# Y Cyngor: Aelodau Annibynnol

| | |
|---|---|
| **Y Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 16 Ebrill 2021 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Dirprwy Ysgrifennydd |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiedig |
| **Fersiwn:** | 1.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Ebrill 2023 |

# Ordinhad 3:
# Y Cyngor: Aelodau Annibynnol

1. Aelodau Annibynnol

   i. Penodir hyd at ddeuddeg aelod, nad ydynt yn aelodau staff nac yn fyfyrwyr, i'r Cyngor yn unol â'r Ordinhad hwn, am gyfnod gwaith hyd at bedair blynedd. Ystyrir swydd Cadeirydd y Cyngor a swydd y Dirprwy Ganghellor yn unol â'r darpariaethau ar wahân yn yr ordinhad perthnasol; fodd bynnag, maent yn cyfrannu at gyfanswm y penodiadau a ganiateir o dan yr Ordinhad hwn.

   ii. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn sicrhau bod seddi gwag yn cael eu hysbysebu'n allanol. Ymhellach, bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu aelodau'r cyngor o seddi gwag ac yn gwahodd enwebiadau gan roi rhybudd o seddi gwag ac o'r dyddiad cau ar gyfer enwebiadau fel y bydd yn rhesymol i alluogi i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu eu hystyried.

   iii. Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Dewis i ystyried penodi aelodau annibynnol a fydd yn cynnwys o leiaf dri aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn Ysgrifennydd y pwyllgor dewis.

   iv. Penodir aelod annibynnol o dan y disgrifiad rôl a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

   v. Bydd y Pwyllgor Dewis yn gwneud ei argymhelliad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a hynny fel arfer erbyn y cyfarfod diwethaf cyn i'r swyddi gwag godi.

   vi. Os daw sedd aelod annibynnol yn wag caiff y sedd wag ei llenwi cyn gynted â phosibl, fel y disgrifir yn 1. ii ac 1. iii uchod.

2. Cymhwyster ar gyfer ailbenodiad

   i. Bydd aelod annibynnol yn gymwys i'w ailbenodi am dymor pellach o bedair blynedd, dan yr amod na fydd yn gwasanaethu am fwy nag wyth mlynedd yn olynol yn y categori hwnnw.

   ii. Pan fydd unigolyn wedi gwasanaethu am y cyfnod hiraf a ganiateir fel aelod annibynnol, ni fydd yn gymwys am benodiad pellach yn yr un categori aelodaeth nes bod cyfnod o dair blynedd wedi mynd heibio.

   iii. Bydd aelod annibynnol sy'n cael ei ddiswyddo o dan Ordinhad 1 yn gymwys i'w ailethol ar ôl cyfnod o ddwy flynedd.